MILLS, JOHN ('Ieuan Glan Alarch '; 1812 - 1873); gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a cherddor

Enw: John Mills
Ffugenw: Ieuan Glan Alarch
Dyddiad geni: 1812
Dyddiad marw: 1873
Rhiant: Mary Mills
Rhiant: Edward Mills
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a cherddor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth
Awdur: Gwilym Prichard Ambrose

Ganwyd 19 Rhagfyr 1812 yn Mount Street, Llanidloes, yn fab Edward a Mary Mills ac yr Henry Mills. Bu mewn ysgol nes bod yn 13 oed ac yna aeth i ffatri wlân ei dad. Denwyd ef gan gerddoriaeth yn ieuanc ac astudiodd ramadegau cerddorol yn ddyfal; bu'n rhoddi addysg yn elfennau miwsig yng Nghymdeithas Gerddorol Llanidloes o dan arweiniad ei ewythr, James Mills. Yn 1838 dug allan *Gramadeg Cerddoriaeth*, gwaith a gafodd gylchrediad eang; cyhoeddodd hefyd *Hyfforddwr yr Efrydydd*. Yn yr un flwyddyn bu ar daith yn siroedd Caerfyrddin, Aberteifi, Morgannwg, a Môn, ac yn Lerpwl - yn darlithio ar ddirwest a cherddoriaeth ac yn cychwyn cymdeithasau cerdd. Yn 1841 aeth i Ruthyn yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Cyhoeddodd *Y Perl Ysgrythurol* yn 1843, ac, yn 1845, *Y Beirniadur Cymreig*. Yn 1846 aeth yn genhadwr ymysg yr Iddewon yn Llundain ac ymwelodd â Phalesteina; cyhoeddwyd *Iddewon Prydain* yn 1852, *British Jews* yn 1853, a *Palesteina* yn 1858. Penodwyd ef yn weinidog eglwys Gymraeg Nassau Street, Llundain, yn 1863. Heblaw y llyfrau a enwyd eisoes cyhoeddodd *Y Geirlyfr Ysgrythurol*, 1840; *Y Cerddor Eglwysig*, 1846; *Y Salmydd Eglwysig*, 1847; *Elfennau Cerddorol*, 1848; *Darlith ar Gerddoriaeth*, 1849; *Y Canor*, 1851; *Yr Athraw Cerddorol*, 1854; *Y Cerddor Dirwestol*, 1855; *Daearyddiaeth Ysgrythyrol*, 1861; a *Beibl y Teulu*, 1862. Ysgrifennodd erthyglau i'r *Traethodydd*, y *Journal of Sacred Literature*, a'r *Imperial Bible Dictionary*. Bu'n ysgrifennydd yr ' Anglo-Biblical Institute.' Bu farw 28 Gorffennaf 1873 a chladdwyd ym mynwent Abney Park, Llundain.

Awdur

Prifathro Gwilym Prichard Ambrose

Ffynonellau

R. Mills a N. Cynhafal Jones, *Buchdraeth y Parch. John Mills. F.R.G.S., M.R.A.S ...* (Aberdâr 1881)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96), ail arg., vii, 278 N - R

Y Traethodydd, 1901, 1903

Y Goleuad, 1873

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Mills

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 27010103

Wikidata: Q16065475

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu